## Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

### Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin

Rhaglen a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg ar gyfer plant o dan 4 oed a'u teuluoedd, sy'n byw mewn ardaloedd penodol yn Sir Gaerfyrddin.

Darperir y gwasanaeth ar y cyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae trin eich data personol yn briodol yn bwysig iawn i ddarparu'r gwasanaeth hwn a chynnal hyder y cyhoedd.

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson, y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' drwy'r hysbysiad preifatrwydd hwn a'r un yw eu hystyr.

Er mwyn sicrhau ein bod yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn felly wedi cael ei greu er mwyn esbonio mor glir â phosibl beth rydym yn ei wneud â'ch data personol.

### 1. At ba ddiben rydym yn defnyddio'ch data personol?

Wrth ddarparu gwasanaeth Dechrau'n Deg, mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gyfrifol ar y cyd am y data personol rydym yn ei ddefnyddio amdanoch chi a'ch plentyn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth, mae ganddynt fynediad at eich data, fel yr eglurir isod. O dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data rydym yn cael ein hystyried yn ‘gyd-reolwyr data’.

Bydd y wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi a'ch plentyn yn cael ei defnyddio at y dibenion canlynol yn unig:

- Gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel i blant 2 oed (tymor ar ôl eu hail ben-blwydd)
- Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd gwell
- Cymorth rhianta
- Cymorth iaith a chyfathrebu
- Monitro Llywodraeth Cymru ac ati.

Y sail gyfreithlon dros gasglu a defnyddio'r data personol hwn yw bod ei angen arnom i arfer ein hawdurdod i ddarparu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2014.

## 2. Pa fath o wybodaeth rydym yn ei defnyddio?

Rydym yn casglu'r mathau canlynol o ddata personol er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn:

- Enw a chyfeiriad eich plentyn
- Eich enw a'ch cyfeiriad
- Dyddiad geni eich plentyn
- Rhywedd eich plentyn
- Rhif GIG eich plentyn
- Rhifau ffôn fel y gallwn gysylltu â chi
- Yr iaith a siaredir yn eich cartref
- Cyfeiriad e-bost fel y gallwn ysgrifennu atoch
- Eich teulu
- Eich amgylchiadau cymdeithasol
- Eich amgylchiadau ariannol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Eich anghenion tai
- Delweddau/ffotograffau

Lle bo'n berthnasol, rydym yn defnyddio'r mathau canlynol o ddata personol sensitif (gelwir yn data categori arbennig):

- Gwybodaeth am eich Iechyd a Llesiant chi a'ch plentyn
- Gwybodaeth am eich ethnigrwydd chi a'ch plentyn

Rydym yn defnyddio'r math hwn o ddata personol i arfer ein rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth diogelu cymdeithasol y cyfeirir ati uchod.

## 3. A ydym yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill?

Fel arfer, rydym yn casglu data personol yn uniongyrchol gennych chi.

Fodd bynnag, mae Dechrau'n Deg yn derbyn rhywfaint o wybodaeth gan ddarparwyr gofal plant eraill sydd wedi'u contractio, yn benodol data personol am lesiant eich plentyn, eu presenoldeb a'r cynnydd y maent yn ei wneud.

## 4. Trosglwyddo eich gwybodaeth dramor

Rydym yn defnyddio Microsoft 365 i brosesu ein holl negeseuon e-bost o dan delerau cytundeb caeth, sy'n diogelu eich gwybodaeth. Caiff y data personol hwn ei gadw ar weinyddion y tu allan i'r DU, ond dim ond yng ngwledydd yr UE lle mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn berthnasol.

Nid ydym yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth arall amdanoch chi y tu allan i'r DU.

**5. Pwy sydd â mynediad i'ch gwybodaeth?**

Rydym yn rhannu data personol amdanoch chi a'ch plentyn dim ond pan fydd angen i ni wneud hynny. Pan fydd Dechrau'n Deg yn rhannu gwybodaeth, rydym ym mhob achos yn darparu cyn lleied ag sydd ei angen i'r canlynol:

- Y meithrinfeydd rydym wedi rhoi contract iddynt i ddarparu gofal plant
- Ysgolion yn Sir Gaerfyrddin
- Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf y Cyngor
- Llywodraeth Cymru

Rydym yn darparu rhif y GIG, enw llawn, cyfeiriad gan gynnwys côd post, dyddiad geni, rhywedd, cysylltiadau a wnaed â gweithwyr proffesiynol, data presenoldeb gofal plant, data a gofnodwyd am iaith a lleferydd a data presenoldeb cyrsiau i Lywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cael ei ddefnyddio ganddynt i:

- Monitro cynnydd tuag at ganlyniadau cenedlaethol, gan gynnwys cyhoeddi ystadegau swyddogol dienw
- Monitro perfformiad a chyllid awdurdodau lleol
- Datblygu a gwerthuso polisi
- Nodi a chynorthwyo datblygu arfer da
- Cefnogi ymchwil sy'n ymwneud â llesiant unigolion

Gall hyn gynnwys cysylltu neu gyfuno'r wybodaeth â data arall am bobl yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru dim ond yn defnyddio'r data personol y mae modd eich adnabod chi neu eich plentyn drwyddo i gefnogi eu prosesau ystadegol ac ymchwil ac ni fydd yn defnyddio'r wybodaeth i:

- Cymryd camau neu gefnogi mesurau neu benderfyniadau mewn perthynas ag unigolyn neu ei deuluoedd
- Achosi unrhyw ddifrod neu drallod i unigolion neu eu teuluoedd
- Adnabod unrhyw unigolion mewn unrhyw adroddiadau

Bydd canlyniadau dadansoddiadau a gynhelir gan ddefnyddio'r data ar gael mewn cyhoeddiadau ystadegol neu ymchwil a ryddhawyd ar wefan Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru a hefyd drwy ddata a roddir ar wefan StatsCymru.

Bydd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru(DHCW) fynediad at ran o'r data personol am chwe mis, er mwyn caniatáu cysylltu data â banc data SAIL Mae Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw(SAIL) yn cynnwys data dienw am boblogaeth Cymru, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am y ffordd y mae'n storio a defnyddio data dienw yn ddiogel iawn ar gyfer ymchwil i wella iechyd, llesiant a gwasanaethau.

Felly, nid yw enwau, cyfeiriadau a chodau post wedi'u cynnwys yn y data cysylltiedig. Defnyddir y wybodaeth at ddibenion ymchwil yn unig.

Mae yna hefyd sefyllfaoedd penodol eraill lle efallai y bydd yn ofynnol i ni ddatgelu data personol, megis:

- Pan fo'r gyfraith yn mynnu ein bod yn rhoi'r wybodaeth.
- Pan fo'n ofynnol datgelu'r wybodaeth i atal neu ganfod trosedd.
  Pan fo datgelu er budd hanfodol y person dan sylw.

## 6. Pa mor hir byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am 18 mlynedd o ddyddiad geni'ch plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw data personol am flwyddyn, at ddibenion cysylltu a pharu data. Bydd eu data dienw yn cael ei gadw cyn belled â'i fod yn parhau i fod yn ddefnyddiol at ddibenion ymchwil ac ystadegol. Oherwydd y gall data hanesyddol fod yn ddefnyddiol iawn yn y cyd-destun hwn, gallai hyn fod am nifer o flynyddoedd.

## 7. Eich Hawliau Diogelu Data

Mae gennych yr hawl i:

- Cael mynediad at y data personol sy'n cael ei brosesu amdanoch - gallwch wneud hyn drwy wneud cais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.
- Cywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn
- Tynnu eich caniatâd yn ôl o ran prosesu'r wybodaeth, os mai hwn yw'r unig sail i brosesu'r wybodaeth
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y corff annibynnol yn y Deyrnas Unedig sy'n diogelu hawliau gwybodaeth

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd gennych yr hawl i:

- Gwrthwynebu bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu
- Dileu eich data personol
- Cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol
- Trosglwyddo data

## 8. Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr hysbysiad preifatrwydd hwn a'ch hawliau, cysylltwch â'r canlynol:

**Cyngor Sir Caerfyrddin:**

Swyddog Diogelu Data

Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

E-bost: diogeludata@sirgar.gov.uk

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:**

Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
Ysbyty Tywysog Philip
Heol Bryngwyn Mawr
Llanelli
SA14 8QF

E-bost: Information.Governance.HDD@wales.nhs.uk

**Llywodraeth Cymru**

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd:
CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.cymru.

Gellir cael manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghyd â chyfarwyddyd pellach ynghylch y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

www.ico.org.uk